

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod	10^{fed} Mawrth 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol y Cabinet ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel
Awdur yr Adroddiad	Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad; ac Adam Turner, Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad)
Teitl	Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn archwilio effeithiolrwydd y siarter cydymffurfiaeth cynllunio ("y Siarter"), a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Medi 2020. Pwrpas y siarter yw symleiddio'r broses o ddatrys honiadau o dorri amodau cynllunio drwy helpu achwynwyr, tramgwyddwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddeall sut mae'r swyddogaeth cydymffurfio â chynllunio'r Cyngor yn gweithredu.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Darparu gwybodaeth ynghylch effeithiolrwydd y Siarter.
- 2.2. Mae angen gwneud penderfyniad ar a ddylid diwygio'r Siarter a/neu gynyddu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cydymffurfiaeth cynllunio ledled y sir.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod yr Aelodau yn-

- (i) Arnodîr Siarter drafft o'r enw 'Cydymffurfiaeth Cynllunio yn Sir Ddinbych - Siarter cydymffurfiaeth cynllunio' (Atodiad 1);
- (ii) Cefnogi bwriad y swyddogion i gyflwyno fersiwn terfynol y Siarter ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelod Arweiniol; a
- (iii) Cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'u hystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mabwysiadwyd y Siarter gan y Cyngor ym mis Medi 2020. Disgwylwyd y byddai darparu canllawiau a oedd angen mawr amdanynt i fudd-ddeiliaid yn lleihau'r galw ar swyddogion, ac o ganlyniad, yn gwella perfformiad y swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio. Mae'r adroddiad hwn yn nodi a yw hyn wedi cael ei gyflawni, a pha newidiadau y gellir eu gwneud i'r Siarter i wella perfformiad ymhellach.
- 4.2. Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad y swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio, tra bo recriwtio ail swyddog wedi cael effaith ychwanegol, buddiol. Felly, nid yw'n syml cymharu perfformiad y gwasanaeth cyn ac ar ôl y Siarter. Serch hynny, gallwn ddibynnu ar brofiad swyddogion i arfarnu effeithiolrwydd y Siarter.
- 4.3. Mae swyddogion yn ystyried yn eang bod y Siarter yn adnodd effeithiol iawn ar gyfer cynghori budd-ddeiliaid ar sut mae'r Cyngor yn archwilio ac yn datrys honiadau o dorri rheolaeth gynllunio. Mae'n arbennig o ddefnyddiol yng nghydestun rheoli disgwyladau budd-ddeiliaid, sy'n agwedd bwysig ar gynnal gwasanaeth effeithlon. Yn unol â hynny, mae achwynwyr yn cael eu cyfeirio at y Siarter pan mae eu cwynion yn cael eu cydnabod, ac mae troseddwr honedig, yn cael eu cyfeirio ato fel bo'r angen. Yn bennaf, mae budd-ddeiliaid yn ymddangos i fod llai tebygol o herio cynnwys dogfen a fabwysiadwyd yn swyddogol megis y Siarter, na chynnwys e-bost gan swyddog, er enghraifft.
- 4.4. Mae'r gweithgareddau canlynol yn benodol wedi cael eu symleiddio gan allu swyddogion i gyfeirio at y Siarter:
 - Esbonio beth sydd, a beth sydd ddim yn dod dan reolaeth y swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio;

- Ymgysylltu ag achwynwyr yn y broses ymchwilio;
- Cyfiawnhau sut mae achosion yn cael eu blaenoriaethu; a
- Chyfiawnhau gwneud penderfyniadau yn ôl disgrisiwn, e.e. uwchgyfeirio achos ar gyfer camau gorfodi ffurfiol.

- 4.5. Ystyrir y gall mân newidiadau i'r Siarter wella'r prosesau hyn ymhellach, ac mae'r newidiadau arfaethedig hyn wedi'u hamlygu mewn melyn yn y Siarter drafft yn Atodiad 1, gyda'r hepgoriadau arfaethedig wedi cael eu croesi allan. Yn bennaf, mae tabl wedi cael ei ychwanegu yn adran 2.1 y Siarter ddrafft, er mwyn symleiddio'r ddogfen a darparu cyfeiriad gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.
- 4.6. Mewn ymateb i adborth gan Aelodau, cynhigir cynnwys rhagor o wybodaeth o fewn y Siarter ar sut mae budd-ddeiliaid yn cael eu diweddarau ar gynnydd achosion. Mae'r newidiadau penodol hyn i'w gweld yn adran 2.4.1 y Siarter drafft yn Atodiad 1. Byddai barn Pwyllgorau ar os/sut dylem wella ymhellach mewn perthynas â hyn yn cael ei groesawu. Mae swyddogion yn agored i archwilio a fyddai adroddiadau ychwanegol i bwyllgorau a Grwpiau Ardal yr Aelodau yn ddefnyddiol ar gyfer Aelodau, ac yn ffordd effeithlon i Swyddogion reoli disgwyliadau. Yn y tymor canolig, byddai'n bosibl darparu diweddariadau sy'n benodol i achosion cael eu darparu ar y wefan yn uniongyrchol o'r gronfa ddata, fel y dull sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. Dylai hyn gael effaith fuddiol ar adnoddau staffio, a chroesawir barn aelodau ar hyn hefyd.
- 4.7. Yn olaf, gwnaed newidiadau pellach er mwyn gwneud y Siarter yn fwy hygyrch a diweddar (e.e. drwy newid y cyfeiriad i'r Arolygiaeth Gynllunio o ran Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd yng Nghymru).
- 4.8. Er bod mabwysiadu'r Siarter wedi bod o fudd sylweddol, os yw'r newidiadau a soniwyd amdanynt uchod yn cael eu mabwysiadu, dylai fod o fudd i berfformiad y swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio ymhellach. Dylai hyn, yn ogystal â recriwtio ail Swyddog Cydymffurfiaeth yn ddiweddar, arwain at welliant parhaus i'r perfformiad drwy'r cyfnod ar ôl y pandemig, a chaniatáu i'r swyddogaeth gydymffurfio barhau gyda'r adnoddau presennol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd mabwysiadu'r Siarter yn cynyddu effeithlonrwydd y swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio, sydd â'r diben o gefnogi cyflawniad pob un o'r Blaenoriaethau Corfforaethol drwy reoli datblygiadau a arweinir gan bolisi.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni fyddai mabwysiadu'r newidiadau i'r Siarter yn cael goblygiadau ariannol uniongyrchol, ac ni ddisgwylir y byddai'n cael goblygiadau sylweddol ar wasanaethau eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn ogystal â chymryd camau rhesymol i ymarfer ei swyddogaethau i gyflawni ei amcanion datblygu cynaliadwy (neu les). Mae'r adroddiad hwn ar y Siarter wedi ystyried gofynion Adran 3 'Dyletswyddau Lles cyrff cyhoeddus' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae aseiad o effaith ar les ynghlwm yn Atodiad 2.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mabwysiadwyd y Siarter mewn ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Craffu, ac mae'r newidiadau iddo yn cael eu hargymell mewn ymateb i'r ddeialog rhwng swyddogion, Aelodau a budd-ddeiliaid eraill.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni ddisgwylir y byddai costau cysylltiedig mewn perthynas â mabwysiadu'r siarter; byddai unrhyw gostau'n cael eu cadw o fewn cyllidebau cyfredol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes risgiau y gellir eu nodi o fabwysiadu'r newidiadau i'r Siarter.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Mae Adran 7.4.1(e) o Gyfansoddiad y Cyngor yn pennu hawl y Pwyllgor Craffu i ystyried effaith polisiau, ac asesu a ydynt wedi gwneud gwahaniaeth, tra bo Adran 7.4.2(b) yn amlinellu pwerau'r Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â pherfformiad y Cyngor wrth gyflawni amcanion y polisi.